

## **Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020**

### **Pwynt craffu technegol 1: Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt a godwyd:-

- Dylai testun Cymraeg rheoliad 2(2)(a)(ii) o Reoliadau 2020 ddweud “*hepgorer y diffiniad sy'n dechrau â “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41”;*” (ychwanegwyd y pwyslais mewn llythrennau trwm). Mae'r testun Saesneg yn gywir.
- Dylai testun Cymraeg rheoliad 3(2)(a)(i) ddweud “*hepgorer y diffiniad sy'n dechrau â “mae i “Cyfarwyddeb 2004/41”;*” (ychwanegwyd y pwyslais mewn llythrennau trwm). Mae'r testun Saesneg yn gywir.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai goblygiadau cyfreithiol cyfyngedig sydd i'r camgymeriadau a nodwyd, a bod bwriad deddfwriaethol y darpariaethau, er gwaethaf y camgymeriadau, yn glir. Er hynny, er eglurder, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu y bydd y camgymeriadau'n cael eu cywiro drwy gyfrwng slip cywiro.

### **Pwynt craffu technegol 2: Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg o ran colofn 2 y cofnod ar gyfer Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2123 yn y tabl yn yr Atodlen 6 newydd i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 fel y'i mewnsoedir gan Atodlen 5 o Reoliadau 2020.

Yn yr Atodlen 6 newydd i Reoliadau 2009 (fel y'i mewnsoedir gan Reoliadau 2020), mae colofn 1 y tabl yn cynnwys rhestr o ddarpariaethau sydd bellach yn ddarpariaethau cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n “darpariaethau mewnforio penodedig” at ddibenion Rheoliadau 2009. Mae colofn 2 y tabl hwnnw'n cynnwys disgrifiadau o'r darpariaethau a restrir yng ngholofn 1 – daw'r disgrifiadau hynny o destun darpariaethau perthnasol yr UE a ddargedwir. Yn yr Atodlen 6 newydd i Reoliadau 2009, mae testun Saesneg colofn 2 y cofnod yn y tabl ar gyfer Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2123 a ddargedwir yn cyfeirio'n gywir at “the operator”, gan mai dyna yw testun Erthygl 6(4) ei hun. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, y tro hwn, bod i gyfeiriad at “operator” yr un ystyr ag “operator responsible for the consignments”, gan nad oes gweithredwr arall y gallai'r ddarpariaeth fod yn gymwys iddo. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg fel y'i nodir yn y pwynt a godwyd yn peri bod diffyg cyfwerthedd cyfreithiol rhwng y ddau destun.

Er cywirdeb, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ymdrin â'r gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg os/pan fydd cyfrwng deddfwriaethol priodol arall yn mynd rhagddo.